

Bwletin Awdurdod S4C - Rhagfyr 2001

CYFARFOD AGORED

Fe gynhaliodd yr Awdurdod Gyfarfod Agored ar nos Iau, 29 Tachwedd 2001, yn Theatr Hafren, y Drenewydd, lle bu oddeutu 30 o'r cyhoedd yn bresennol. Cymerodd y cyfarfod ffurf ychydig yn wahanol i'r arfer gyda dau fideo byr yn cael eu dangos ar y dechrau, un oedd yn rhoi blas ar y rhaglenni i ddod dros y Nadolig, a'r llall clipiau o raglen fyddai'n ymddangos ar S4C ar 27 Rhagfyr oedd yn rhoi sylw i ddatliad Theatr Mwldan yn ugain oed (a gafodd ei recordio yn Theatr Hafren).

Wedi dangos y fideos cynhaliwyd trafodaeth yn ôl y drefn arferol. Yn ogystal â Chadeirydd yr Awdurdod, Elan Closs Stephens, bu'r Prif Weithredwr, Huw Jones, a'r Cyfarwyddwr Rhaglenni, Huw Eirug, yn cymryd rhan. Roedd Aelodau eraill yr Awdurdod hefyd yn bresennol i wrando ar y drafodaeth ac i gael sgwrs anffurfiol â'r cyhoedd cyn ac ar ôl y cyfarfod. Ymhlith y materion a drafodwyd yn y cyfarfod oedd:

Rhaglenni Addysgiadol am Hanes a Diwylliant Cymru

Cyfeiriwyd at y sylw oedd wedi bod yn ddiweddar at fewnfudwyr i ardaloedd Cymraeg Cymru a holwyd, gan fod y teledu yn gyfrwng i fedru addysgu yn ogystal â rhoi adloniant, a oedd modd darparu rhaglenni i addysgu mewnfudwyr am gefndir a diwylliant Cymru. Atebodd Huw Jones fod hwn yn syniad diddorol. Tra roedd S4C yn cyflwyno'r Gymraeg i rai oedd am ddysgu'r iaith trwy gyfrwng rhaglenni fel *Welsh in a Week* nid oedd ar hyn o bryd yn darparu rhaglenni o'r natur newydd ei awgrymu. Yr oedd y syniad yn rhywbeth y byddai'n werth i S4C feddwl ymhellach amdano. Ychwanegodd Elan Closs Stephens, tra nad oedd S4C yn osgoi ei chyfrifoldebau, a thra'n pwysleisio y gwasanaeth is-deitlo roedd y Sianel yn ei darparu, yr oedd yna gyfrifoldeb ar y BBC a HTV i gynnig y fath yma o raglenni gan yn y pen draw, roedd yn debygol taw at raglenni trwy gyfrwng y Saesneg y byddai mewnfudwyr yn troi yn gyntaf i gael blas ar Gymru cyn efallai cymryd y cam mwy anodd o ddysgu'r iaith.

S4C Digidol

Cyfeiriwyd at S4C Digidol a soniwyd bod yna ymwybyddiaeth bod y rheiny nad oeddynt yn gallu derbyn teledu digidol yn colli allan ar y gwasanaeth 12 awr y dydd a holwyd onid oedd yn bosibl i roi'r gwasanaeth yma ar S4C ar analog hefyd, neu ffordd arall onid ellid cynnig y gwasanaeth Cymraeg 12 awr ar analog a rhoi cynnyrch Channel 4 ar y Sianel ddigidol. Atebodd Huw Jones drwy esbonio os nad oedd gan berson deledu digidol dim ond S4C fedr y person hynny dderbyn. Roedd S4C wedi bod yn gyfaddawd o'r cychwyn wrth geisio ymateb i ofynion y Cymry Cymraeg am sianel Gymraeg a hefyd pobl oedd yn dymuno gweld rhaglenni Channel 4. Roedd yna gyfrifoldeb ar S4C i ddarparu rhaglenni Channel 4 o gwmpas y bloc rhaglenni Cymraeg. Yr oedd digidol yn ei wneud hi'n bosibl i gael y ddau wasanaeth (S4C a Channel 4) yn gwbl ar wahân. Pwysleisiwyd ei bod hi'n bosibl i gael teledu digidol am £100. Gellid gofyn i gael offer Sky, talu £100 a pheidio tanysgrifio i unrhyw wasanaeth Sky o gwbl. Roedd rhaid cydnabod nad oedd wastad yn hawdd i'w gael ond roedd yn gyfrifoldeb ar Sky i'w ddarparu gan ei fod wedi'i hysbysebu. Felly os oedd unrhyw wyliwr am gael S4C am 12 awr y dydd, neu yn wir gwasanaeth cyflawn Channel 4, hwn oedd yr ateb iddynt. I'r rhai nad oeddynt yn gallu gwneud hynny, am ba bynnag reswm, fe fyddai'n rhaid parhau â chyfaddawd y gwasanaeth presennol ar S4C analog.

Sylw i'r Canolbarth

Awgrymwyd bod yna dipyn o sôn am sefydliadau Cymru a'r cyfryngau yn gwasanaethu'r Gogledd neu'r De ond ychydig iawn o sylw yr oedd y Canolbarth yn ei gael. Teimlwyd bod hi'n fwy o gyfrifoldeb nag erioed o'r blaen i'r sefydliadau – y rhan fwyaf ohonynt wedi'i lleoli yng Nghaerdydd – i gofio am gefn gwlad Cymru ac yn enwedig y Canolbarth. Yna fe gyfeiriwyd yn fwy penodol at y diwydiant teledu annibynnol a'r ffaith nad oedd gan y Canolbarth cwmni teledu wedi lleoli yno, tra roedd cwmnïau yn y Gogledd a'r De yn cael comisiynau. Nid oedd hyfforddiant ar gael i bobl ifanc y rhanbarth chwaith oni bai iddynt symud i Gaerdydd.

Atebodd Huw Jones trwy ddweud fod hyn yn un o'r cwestiynau anoddaf ac nid oedd yn siwr beth allai S4C gynnig i'r cyfeiriad yna heb iddi gomisiynu am resymau economaidd yn hytrach nag am resymau rhaglenni, ac yn y pen draw fe fyddai hynny yn gamgymeriad. Roedd yr un gwyn, ynglyn â thynfa Caerdydd i'w glywed yn y Gogledd lle'r oedd yna ddiwydiant teledu. Roedd Caerdydd yn ddeniadol i bobl ifanc; roedd yn cynnig bywyd dinas a roedd hi hefyd yn ddinas lle gellid byw bywyd Cymraeg. Teimlwyd taw'r cyfan y gellid ei ddweud oedd fod angen i'r Sianel adlewyrchu Cymru gyfan. Roedd hi'n haws i wneud hynny yn aml os oedd cynhyrchydd neu gwmni chi wedi'i wreiddio mewn rhyw ardal neu'i gilydd. Ar y llaw arall roedd y diwydiant yn un oedd yn dibynnu ar ryw gymaint o "critical mass" er mwyn cynnal bywoliaeth nad oedd yn seiliedig ar un rhaglen, er mwyn i bobl fedru gweithio i fwy nag un cwmni, i gael amrywiaeth o brofiad, er mwyn cael yr adnoddau oedd wedyn yn gwasanaethu mwy nag un rhaglen. Nid oedd yna unrhyw beth i rwystro rhywun oedd yn wirioneddol ddymuno sefydlu cwmni yn y Canolbarth rhag gwneud hynny, a chychwyn efallai mewn ffordd fechan gan dynnu pobl i fewn, ddim yn barhaol ond i ddechrau. Byddai S4C bob amser yn agored i syniadau, ac os byddai'r syniadau yna yn helpu S4C i gyflawni ei swyddogaeth o wasanaethu Cymru, yna fe fyddai cymaint â hynny yn haws i S4C wrando ac i gomisiynu.

Soniodd Huw Eirug hefyd am y rhaglen newydd fyddai'n cael ei ddangos yn y flwyddyn newydd, rhaglen fyddai'n cymryd lle *Heno* yn yr amserlen. Roedd *Heno* wedi bod yn ddiddorol am sawl rheswm, ond yr oedd wedi dod yn llawer iawn mwy amlwg yn ddiweddar oedd yr angen i S4C adlewyrchu bob cymuned. Dyna oedd bwriad y gyfres newydd *Wedi Chwech* yn cychwyn yn Mis Ionawr ac yn cael ei darlledu rhwng 6.00 pm a 6.30 pm. Swyddogaeth pennaf y gyfres oedd i adlewyrchu y digwyddiadau a'r bobl oedd yn byw yn yr amrywiol gymunedau oedd yn creu Cymru. Nid oedd yn mynd i fod yn dasg hawdd a byddai Huw Eirug yn croesawu derbyn barn pobl.

Yn dilyn, i fyny ar y pwynt bod y Canolbarth yn dioddef, holwyd ynglyn â sefyllfa Cwmni Hon yn Aberystwyth a oedd wedi colli comisiwn yn ddiweddar. Roedd hwn yn gwmni oedd yn agosach i'r Canolbarth na unrhyw un arall ac awgrymwyd nad oedd S4C wedi helpu'r Canolbarth wrth dynnu Cwmni Hon i ffwrdd, yn wir roedd hi'n gwneud y broblem yn waeth. Atebodd Elan Closs Stephens fod hon yn sefyllfa anodd ond roedd yn fater yn y pen draw o orfod pwyso a mesur gofynion amserlen. Ychwanegodd Huw Eirug fod yn rhaid i S4C yn y pen draw wneud ei phenderfyniadau ar sail y rhaglenni, ac roedd yn llwybr peryglus iawn i wneud penderfyniadau ynglyn â darlledu ar Sianel ar sail rhesymau economaidd. Roedd yna sawl cwmni wedi colli rhaglenni; yn affodus roedd y cwmni o dan drafodaeth yn gweithio yn bennaf ar un gyfres, sef *Hon*. Gwnaethpwyd y penderfyniad ar sail yr amserlen a rhaglenni yr oedd S4C am ddarlledu yn yr amserlen. Cydnabuwyd bod y broses dendro yn un caled, ond y gwirionedd oedd ein bod yn byw mewn byd cystadleuol iawn.

Gôl

Awgrymwyd bod S4C wedi colli cannoedd o wylwyr wrth dynnu'r gyfres *Gôl* o'r sgrîn. Tra nad oedd *Gôl* yn berffaith roedd yn well na dim a gofynnwyd am sylwadau. Ategodd aelod arall o'r gynulleidfa yr hyn a ddywedwyd gan ychwanegu fod yna bobl oedd yng nghlwm â chlwb pêl-droed y Drenwydd yn siomedig iawn mai ychydig o'i gemau nhw oedd ar y teledu erbyn hyn, a Chaersws yr un fath. Atebodd Huw Eirug fod penderfyniad wedi'i gymryd rhwng S4C a'r BBC i ddirwyn *Gôl* i ben, oherwydd y farn nad oedd hi'n rhaglen oedd yn cynnig y safon o raglen y dymunwyd ei gael. Roedd yn bwysig i beidio cymysgu rhwng dau beth - roedd rhaid siarad am y rhaglen *Gôl* fel rhaglen, ac wedyn siarad am bêl-droed yng Nghymru ar sail pêl-droed yng Nghymru. Roedd trafodaethau yn mynd ymlaen gyda'r BBC i weld sut orau i ddangos pêl-droed yng Nghymru. Rhagwelwyd y byddai S4C a'r BBC yn gwneud datganiad yn o fuan.

Dysgu Cymraeg

Cyfeiriwyd at y gyfres *Saith ar y Sul* a ddangoswyd ar S4C yn y gorffennol. Roedd y gyfres yn cynnig detholiad o newyddion yr wythnos i ddysgwyr gyda'r iaith wedi'i ddewis yn ofalus a'r sylwebydd yn cyflwyno yn fwy araf ac yn ynganu'n glir. Credwyd i'r rhaglenni hyn fod yn rhai gwerthfawr iawn. Roedd dysgu'r Gymraeg gyda'r nos yn boblogaidd ym Mhowys, ac ymysg y dosbarthiadau i oedolion hyn oedd y pwnc mwyaf niferus. Roedd yna dipyn o ddefnydd o *Saith ar y Sul* ymysg y dosbarthiadau pan oedd ar gael. Holwyd os oedd y gyfres wedi mynd am byth, neu oedd yna rywbeth arall ar y gorwel. Atebodd Huw Eirug fod swyddogion S4C, fel yr oedd yn digwydd, wedi bod yn trafod yn ystod yr wythnosau diwethaf, yn dilyn llwyddiant mawr *Welsh In A Week*, sut oedd cynnig y gwasanaeth orau i ddysgwyr, ac yr oeddynt wedi trafod newyddion i ddysgwyr. Nid oedd unrhyw benderfyniad wedi'i gymryd eto, ond roedd hi'n dda iawn i glywed barn am, a chanmoliaeth i, y fath yna o raglen.

Pam Fi Duw?

Cyfeiriwyd at y ffaith bod S4C wedi recordio cyfres arall o *Pam fi Duw* a gwnaethpwyd cais iddi gael ei dangos. Atebodd Elan Closs Stephens bod hwn yn bwnc anodd yn sgil yr honiadau yn erbyn John Owen (awdur a chyfarwyddwr y gyfres) ac amgylchiadau ei farwolaeth. Ar hyn o bryd y penderfyniad oedd i beidio ei dangos ar ddechrau'r flwyddyn fel a fwriadwyd yn wreiddiol. Awgrymwyd fod hyn yn hollol resymol gan y byddai yna ymchwiliad gan y Comisiynydd Plant yng Nghymru i mewn i'r cyhuddiadau yn erbyn John Owen yn ystod ei gyfnod fel athro yn ysgol Rhydfelen. Roedd yn rhaid i'r Sianel hefyd ystyried beth fyddai ymateb pobl ifanc tair ar ddeg, pedair ar ddeg, i'r gyfres yn sgil straeon yn y wasg, ac ati.

Rhaglenni S4C yn gyffredinol

Dywedwyd bod y rhaglenni cerddoriaeth, dramâu a rhaglenni cefn gwlad yn ardderchog ar S4C – yn wir roedd *Cefn Gwlad* yn apelio at nifer fawr o bobl yn y Canolbarth, gan gynnwys pobl di-Gymraeg ond holwyd pam oedd y Cymry mor wael yn gwneud rhaglenni ysgafn neu gomedï? Atebodd Huw Eirug fod y pwynt ynglyn â rhaglenni comedi wedi'i godi ym mhob un cyfarfod cyhoeddus yr oedd wedi bod ynddo. Yr oedd hi'n broblem anodd, anodd iawn i gael sgriptiau oedd yn ddoniol. Roedd yr un broblem yn bodoli yn Lloegr, a lle roedd enghreifftiau o lwyddiant y sgript, gan amlaf oedd yn gwneud y gwahaniaeth. Roedd pobl yn dal i werthfawrogi *Fo a Fe*, a *C'mon Midffild* ond efallai bod S4C wedi methu mwy nag oedd wedi llwyddo yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er hynny ni welwyd hyn fel esgus i gilio oddi wrth y frwydr a rhoi'r gorau i gomedï ar S4C. Roedd hon yn faes anodd ac ar ddiwedd y dydd mesur llwyddiant rhaglenni comedi oedd a oeddynt yn gwneud i rywun chwerthin ai peidio. Yr oedd S4C yn mynd i ddyfalbarhau a soniwyd bod gan y Sianel gomedïau newydd yn dechrau yn y flwyddyn nesa, a fe fyddai'n ddiddorol iawn i wybod, unwaith eto, barn y gwylwyr ar ôl iddyn nhw eu gweld.

Buddsoddi mewn Talent

Holwyd os oedd y Cymry, fel cenedl, yn buddsoddi digon mewn ysgrifenyddiaeth a holwyd o lle'r oedd ysgrifenyddiaeth yn dod? Atebodd Huw Eirug fod yr ysgrifenyddiaeth gorau yn dod o fod wedi gweithio gyda rhywun profiadol a dysgu wrthyn nhw. Ychydig iawn o sgwennwyr oedd wedi deffro un bore ac wedi dechrau sgrifennu gan sylweddoli eu bod nhw yn arbennig o dda. Roedd yna brentisiaeth a'r trafferth wrth edrych jyst ar Gymru oedd nad oedd dewis eang o feistri yma i ddewis rhyngddydd nhw. Ychwanegodd Huw Jones nad oedd yn meddwl fod y darlun yn hollol ddu. Tynnodd sylw at *Llwyth o Docs* a *Lolipop* a oedd yn eu ffordd wedi bod yn dda, er yn sicr ddim at ddant pawb. Beth oedd angen ar S4C oedd comedi oedd yn apelio at bawb. Yr oedd S4C yn ymwybodol iawn o'r angen i gael ffrwd o dalent i ddod drwydd yn y tymor hir ac un o'r pethau yr oedd y Sianel wedi'i gyhoeddi yn ystod yr wythnos oedd bod un o'i chomisiynydd rhaglenni, Meirion Davies, yn mynd i weithredu o'r flwyddyn newydd ymlaen fel Pennaeth Datblygu Talent, ar draws y maes i gyd. Ei gyfrifoldeb fyddai gweld potensial, cyd-drafod gyda'r comisiynydd, hyrwyddo datblygiad talent lle bynnag roedd yn cael ei ganfod. Gall hwn gynnwys rhoi pobl i weithio gyda phobl eraill, helpu colegau sydd yn cynnal cyrsiau, gwneud hi'n bosib i bobl weld llwybr gyrfa mewn maes anodd iawn sef ysgrifennu a phopeth arall. Nid oedd yn sefyllfa hawdd, ond nid oedd yn un heb gael ei ystyried. Gobeithiwyd y byddai S4C yn gallu dod yn ôl cyn hir iawn gyda enghreifftiau o lwyddiant.

Pobol y Cwm

Barnwyd fod *Pobol y Cwm* wedi colli'i ffordd. Nid oedd yn rhaglen roedd un o aelodau'r gynulleidfa yn ei gwyllo rhagor; roedd llawer o'r actorion gorau wedi gadael ac nid oedd yn rhaglen oedd yn rhoi mwynhad bellach. Teimlwyd bod llawer o'r storïau ar *Pobol y Cwm* wedi'i gweld ar *Brookside* ac *EastEnders*. Nid oedd digon oedd yn unigryw i Gymru, cefn gwlad Cymru, na bywyd pentrefol Cymru ar y rhaglen bellach. Hefyd credwyd gan ei bod yn cael ei darlledu bob nos roedd tueddiad i ddiflasu arni a bod y storïau yn dioddef oherwydd hyn hefyd. Yr oedd *Pobol y Cwm* yn rhywbeth yr arferid ei wyllo bob nos, amser swper, nawr roedd yna dueddiad i edrych ar y sianelau eraill i weld beth arall oedd ymlaen. Ychwanegodd aelod arall o'r gynulleidfa fod *Pobol y Cwm* wedi colli'i hiwmor. Roedd Dyff, Marc a Cath wedi mynd - roedd y rheiny i gyd wedi rhoi rhyw hwb i'r rhaglen.

Ymatebodd Huw Jones fod S4C a'r BBC yn rhannu nifer o'r pryderon wedi'u mynegi. Roedd yna gyfarfodydd yn digwydd i weld sut gellid ailgodi apêl *Pobol y Cwm*. Roedd y rhaglen wedi bod yn ofnadwy o bwysig i amserlen S4C, ac yn un o'r pethau oedd wedi denu mwy o wylwyr dros y blynyddoedd. Roedd yn bwysig sicrhau ei bod hi'n rhaglen ar ei gorau.

CYFARFOD BUSNES

Aelodau Awdurdod S4C

Ar ddechrau'r cyfarfod croesawodd y Cadeirydd yn gynnes iawn y ddau Aelod newydd, Eira Davies a Chris Llewelyn i'w cyfarfod cyntaf o'r Awdurdod.

Cais S4C am Arian

Nodwyd bod y cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer 5 Tachwedd wedi'i ohirio tan 17 Rhagfyr.

John Owen

Cyfeiriwyd at sylwad a wnaethpwyd yn y cyfarfod diwethaf ynglyn â llun John Owen yn ymddangos gyda'r cyhoeddiad a ddarlledwyd ar ddiwedd y bennod olaf o'r gyfres. Roedd y swyddogion wedi edrych i mewn i'r sefyllfa hon a chadarnhawyd *na* ddangoswyd llun o John Owen gyda'r cyhoeddiad.

Ffeil

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ohebiaeth wedi ei dderbyn oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglyn â *Ffeil* yn sgil lythyr a ddanfonwyd ato gan yr NUJ. Soniwyd hefyd bod yna lythyr o'r NUJ yn cylchredeg o gwmpas ysgolion yn gofyn i blant ysgrifennu at S4C. Nodwyd er hynny nad oedd yr NUJ wedi ysgrifennu yn uniongyrchol at S4C i ofyn am sylwadau ac ymateb ar y sefyllfa a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu atynt ynglyn â'r mater.

Gôl

Esboniwyd y diweddaraf parthed trafodaethau ynglyn â darlledu pêl-droed Cynghrair Cymru. Gobeithiodd y Cyfarwyddwr Rhaglenni y byddai mewn sefyllfa i fedru gyhoeddi rhywbeth yn gynnar yn y flwyddyn newydd parthed dangos pêl-droed y Gynghrair ar S4C.

Cynllun Corfforaethol 2002-2004

Trafododd yr Aelodau Gynllun Corfforaethol drafft ar gyfer 2002-2004 a oedd wedi'i seilio ar strwythur a phrif amcanion y cynllun ar gyfer 2001-2003. Cytunwyd bod y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2002-2004 ar y ffurf y'i cyflwynwyd yn dderbyniol ac y dylai'r swyddogion, felly, gyflwyno i'r cyfarfod ym mis Rhagfyr fersiwn terfynol o'r Cynllun Corfforaethol gyda thargedau diwygiedig ar gyfer 2002 ar gyfer cymeradwyaeth yr Awdurdod. Fe fyddai'n rhaid gyrru'r Cynllun Corfforaethol at y DCMS am gymeradwyaeth derfynol.

Cyllideb 2002 a thu hwnt

Adroddodd y Prif Weithredwr ar gefndir trafodaethau'r Tîm Rheoli ar y gyllideb ar gyfer 2002 a thu hwnt. Yna fe wnaeth ef a'r Cyfarwyddwr Cyllid arwain Aelodau'r Awdurdod drwy'r adroddiad a'r 'Llyfr' oedd yn crynhoi prif elfennau'r gyllideb. Y cwestiwn ffurfiol oedd yn cael ei roi ger bron yr Awdurdod oedd i gytuno ar gyllideb 2002. Er hynny, roedd rhaid ystyried y pwysau ariannol dros dymor hirach na hynny. Gofynnwyd felly i'r Awdurdod ystyried gwahanol agweddau ar gynllun busnes yn ymestyn dros ddeng mlynedd yn cychwyn yn 2002.

Roedd y Tîm Rheoli wedi paratoi nifer o senarios er mwyn cwrdd â'r amcan o warchod y cyllid rhaglenni dros y cyfnod hwn tra'n hefyd sicrhau cyllideb gytbwys. Esboniwyd y pedwar senario wedi'u rhoi gerbron yr Aelodau oedd yn cynnig gwahanol doriadau ariannol posibl a'r damcaniaethau ac ystyriaethau tu ôl iddynt. Argymhelliad y Tîm Rheoli oedd y dylid mabwysiadu Senario 4.

Trafododd yr Aelodau y gyllideb ar gyfer 2002 yn gyffredinol ond canolbwyntiodd y drafodaeth ar yr hyn oedd yn cael ei gynnig yn y gwahanol Senarios fyddai'n weithredol o 2003 a'r toriadau cyllidebol o fewn pob un.

Cytunodd yr Awdurdod y dylid mabwysiadu'r gyllideb a argymhellwyd gan y Tîm Rheoli ar gyfer 2002 a hefyd mabwysiadu argymhellion Senario 4. Roedd hon yn gyllideb gyfaddawdol ac nid oedd yn ateb pob problem roedd S4C fel corff yn ei wynebu; er hynny, yr oedd yn gwarchod y gyllideb ar gyfer rhaglenni.

Cytunwyd hefyd y dylai'r Awdurdod gynnal cyfarfod arbennig yn y flwyddyn newydd er mwyn trafod yn fwy manwl a oedd y sustem gomisiynu presennol yn rhoi'r cyfle gorau i greadigrwydd llifo, tra'n hefyd sicrhau'r gwerth mwyaf o'r arian oedd ar gael.

Cyfarfod gyda Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod Jenny Randerson, AC, wedi derbyn gwahoddiad i gyfarfod gyda'r Awdurdod nos Iau, 20 Rhagfyr. Byddai hwn yn gyfle i gyflwyno cynlluniau'r Sianel ar gyfer y flwyddyn newydd.

Cyfarfod Agored

Cyfeiriwyd at drefn newydd Cyfarfod Agored y noson gynt ac awgrymodd y Cadeirydd bod angen trefnu cyfle i drafod fformat cyfarfodydd agored y dyfodol.

Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol

Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod lle'r oedd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a gwahanol gyrff yn y cyfryngau yn bresennol. Y bwriad oedd trafod sut yr oedd y cyfryngau yn gallu hybu cyfleoedd cyfartal a hynny nid yn unig trwy eu polisiau cyflogi ond hefyd ar y sgrîn. Roedd hi'n fwriad i'r cyfarfod nesaf gael ei gynnal yn swyddfeydd HTV a'r gobaith oedd y gallai'r cyfarfod wedi hynny gael ei gynnal yn S4C.

Cyfarfod ar y We

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod wedi cynnal cyfarfod ar y we ar 20 Tachwedd. Y prif bobl a gysylltodd oedd myfyrwyr yn astudio'r cyfryngau.

Seremoni Gwobrwyo Cymraes y Flwyddyn

Bu hwn yn ddigwyddiad da iawn a nodwyd bod yna lawer mwy o Gymraeg wedi'i ddefnyddio yn ystod y seremoni nag a fu y llynedd. Hefyd, diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Cyllid am roi cymaint o'i hamser i'r digwyddiad wrth iddi ymddwyn fel beirniad

Gwyl Dramâu Shakespeare ar gyfer Ysgolion

Bu'r noson derfynol a gynhaliwyd yn theatr y Duke of York, yn Llundain, yn eithriadol o lwyddiannus. Bu Tessa Jowell, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn bresennol, yn ogystal â Cherie Blair ac aelodau o'i theulu

Teledu heb Ffiniau

Bu'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn cyfrannu at seminar a drefnwyd gan Eirug Wyn, ASE, i drafod y Directif Ewropeaidd 'Teledu heb Ffiniau'. Y bwriad oedd i yrru'r casgliadau a ddaeth allan o'r seminar ymlaen er mwyn cyrrannu at y broses ymgynghorol ar y directif.

Cyfarfod gyda Kim Howells, Gweinidog dros Thwristiaeth, Ffilm a Darlledu –

Atgoffwyd yr Aelodau y byddai'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd yn cyfarfod â Kim Howells ar 6 Rhagfyr 2001 i drafod cais S4C am arian ychwanegol. Gwelwyd hwn fel cam ymlaen ar hyd ffordd y gyfres o drafodaethau oedd angen eu cynnal cyn i'r Llywodraeth benderfynu ar yr Arolwg ar Wariant Cyhoeddus nesaf.

Richard & Judy

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y nodyn a ddanfonwyd at yr Aelodau ers y cyfarfod diwethaf yn tynnu sylw at y newid meddwl parthed darlledu Richard & Judy yn fyw o ddiwedd mis Tachwedd ymlaen. Penderfynwyd y dylid darlledu recordiad o'r rhaglen diwrnod ar ôl iddo gael ei ddarlledu'n fyw gan ddechrau ei ddarlledu'n fyw o'r flwyddyn newydd ymlaen pan fyddai'r amserlen newydd yn caniatáu hyn. Esboniwyd yn llawnach y rhesymeg tu ôl y newid meddwl. Nodwyd, er ei bod yn ddyddiau cynnar, nad oedd penderfyniad S4C wedi derbyn llawer o sylw hyd yn hyn.

Pam fi Duw?

Roedd y nodyn y cyfeiriwyd ato uchod, hefyd wedi sôn am y penderfyniad i beidio â dangos y gyfres ddiweddarara o *Pam fi Duw?* Ers i'r mater hwn gael ei drafod yng nghyfarfod diwethaf yr Awdurdod roedd y sefyllfa parthed y cyhuddiadau a wnaethpwyd yn erbyn John Owen wedi newid. Erbyn hyn yr oedd wedi cael ei gyhoeddi bod y Comisiynydd Plant yng Nghymru yn bwriadu cynnal ymchwiliad rhwng mis Chwefror a Mehefin. Roedd hefyd angen cymryd i ystyriaeth beth fyddai agwedd y gwylwyr pe bai'r gyfres yn cael ei darlledu ym mis Ionawr a sut fyddai plant yn ymateb.

Nododd yr Aelodau y sefyllfa ddiweddaraf. Codwyd i fyny yn benodol ar y pwynt ynglyn ag ymateb plant a soniodd un Aelod mai ei brofiad ef wrth drafod *Pam fi Duw* gyda phobl ifanc oedd nad oeddynt yn gwybod pwy oedd John Owen a'u cwestiwn nhw oedd pryd fyddai'r gyfres nesaf yn cael ei darlledu. Nodwyd y pwynt ac ychwanegwyd pan fyddai'r ymchwiliad drosodd fe fyddai'r cwestiwn a ddylid rhoi'r gorau i'r gyfres yn gyfangwbl yn dal i'w ystyried. Yn y cyfamser, roedd HTV wrthi yn gweithio ar ddwy gyfres arall i lenwi'r bwlch roedd peidio darlledu *Pam fi Duw* yn ei adael.

Wedi trafod y sefyllfa ddiweddaraf, cadarnhaodd yr Awdurdod ei fod o'r farn bod y penderfyniad cywir wedi'i gymryd parthed peidio darlledu *Pam fi Duw* ym mis Ionawr ac y dylid adolygu ac ystyried y mater ymhellach wedi i'r ymchwiliad i mewn i'r cyhuddiadau yn erbyn John Owen ddod i ben.

Pennaeth Datblygu Talent Newydd

Adroddodd y Prif Weithredwr ar lafar bod swydd newydd 'Pennaeth Datblygu Talent Newydd' wedi cael ei greu o fewn yr Adran Rhaglenni. Cymerwyd y cam hwn mewn i ymateb i drafodaethau Aelodau'r Awdurdod a hefyd trafodaethau ymhlith swyddogion S4C am yr angen i fod yn fwy pro-actif i sicrhau bod talent newydd yn cael ei ddatblygu yn y diwydiant, yn anad dim, er mwyn budd y Sianel yn y dyfodol. Y person wedi ei benodi i'r swydd newydd hon oedd Meirion Davies, sef y Comisiynydd Rhaglenni Plant a Phobl Ifanc. Credwyd bod gan Meirion Davies ddoniau arbennig iawn fyddai'n ei wneud yn hynod o addas ar gyfer y swydd. Cyfleodd yr Aelodau eu cefnogaeth i'r datblygiad hwn ac fe wnaethant ddymuno'n dda iawn i Meirion Davies yn y gwaith pwysig oedd o'i flaen.

Materion Er Gwybodaeth

Yn ogystal trafodwyd neu nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad ar y Gwasanaeth Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Gwasanaethau Archwilio Mewnol ac Allanol ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr 2002 i 31 Rhagfyr 2004
- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Ymateb S4C i Bapur Ymgynghorol y Llywodraeth ar y Cynllun Gweithredu Teledu Digidol
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth - 12 Hydref 2001
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr.
- Adroddiad Ymchwil – Perfformiad y gwasanaeth yn erbyn targedau
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol.